Dyheu · Dysg · Daioni

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD CYFFREDINOL SY'N YMWNEUD Â PHROSESU DATA PERSONOL GAN

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

(Fersiwn 1)

MAE EICH DATA O BWYS YOUR DATA MATTERS

Cyflwyniad

Er mwyn cyflawni ein swyddogaethau statudol fel ysgol, mae'n angenrheidiol i ni gasglu a defnyddio (neu 'brosesu') data personol am unigolion gan gynnwys ein disgyblion presennol, blaenorol a darpar ddisgyblion a'u rhieni, cynhalwyr, gwarcheidwaid (y cyfeirir atyn nhw yn yr hysbysiad fel 'rhieni') ac unrhyw gysylltiadau brys.

Mae tryloywder yn bwysig iawn i ni, a'n nod yw bod yn agored ac yn onest gydag unigolion ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio eu data personol. Rydyn ni'n credu os yw unigolion yn wybodus ac yn gwybod o'r cychwyn pa ddata personol sydd gennym ni amdanyn nhw, sut rydyn ni'n ei ddefnyddio, at ba ddiben a gyda phwy mae hawl ei rannu, bydd unigolion yn fwy hyderus bod eu data personol yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd gywir a'u preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n ceisio esbonio a darparu gwybodaeth, ar lefel uchel, yn ymwneud â sut mae'r ysgol yn prosesu data personol yn gyffredinol. Mae'n cynnwys gwybodaeth benodol mewn perthynas â:

- 'Rheolwr data' y data personol sy'n cael ei brosesu gan yr ysgol
- Sut i gysylltu gyda ni mewn perthynas â materion neu bryderon am ddiogelu data
- Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data
- Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu
- Y categorïau o unigolion rydyn ni'n prosesu eu data personol
- Pam rydyn ni'n prosesu data personol
- Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data personol
- Gan bwy ac o ble rydyn ni'n casglu data personol?
- Y categorïau o sefydliadau rydyn ni'n rhannu'r data personol â nhw
- Am ba mor hir byddwn ni'n cadw'r data personol?
- Eich hawliau diogelu data a'ch hawl chi i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Yn ogystal â'r hysbysiad preifatrwydd cyffredinol yma, rydyn ni hefyd wedi datblygu hysbysiadau preifatrwydd manylach sy'n darparu gwybodaeth benodol yn ymwneud â phrosesu data personol at y dibenion canlynol:

- Damweiniau a digwyddiadau
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Presenoldeb
- Ymddygiad a gwaharddiadau
- Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)
- Ymweliadau addysgol
- Arholiadau
- Hawliadau yswiriant
- Asesiadau cynnydd disgyblion
- Addysg ôl-16
- Cofnod Addysgol a Chwricwlaidd Disgyblion
- Diogelu
- Cwynion yn ymwneud â'r ysgol
- Achlysuron a gweithgareddau yn yr ysgol (gan gynnwys tynnu lluniau a recordio/ffilmio)
- Prydau Ysgol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) yn cyhoeddi'r hysbysiadau preifatrwydd yma ar ein rhan, o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth diogelu data. Mae modd gweld yr hysbysiadau preifatrwydd yma.

Y Rheolwr Data

Yr ysgol yw'r rheolwr data ar gyfer y data personol rydyn ni'n ei brosesu, oni nodir yn wahanol. Mae hyn yn cynnwys y data personol sy'n cael ei brosesu gan y Corff Llywodraethu, pennaeth, llywodraethwyr unigol, athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth ac ati.

Mae'r ysgol wedi'i gofrestru'n rheolwr gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Y rhif cofrestru yw: **Z4849313**

Sut i gysylltu â ni ynglŷn â materion neu bryderon diogelu data

Arweinydd Diogelu Data'r ysgol yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu data. Mae sawl ffordd i chi gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data, gan gynnwys dros y ffôn, drwy e-bost a thrwy'r post fel a ganlyn;

Drwy'r post/ymweliad:
Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA

Dros y ffôn: (01443) 680800

E-bost: swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

Y Swyddog Diogelu Data

Mae CBSRhCT yn darparu gwasanaeth cymorth diogelu data i'r ysgol o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth, gan gynnwys darparu Swyddog Diogelu Data.

Mae modd cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data mewn perthynas â materion diogelu data. Serch hynny, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â'r ysgol yn y lle cyntaf. Os bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn uniongyrchol, mae modd i chi wneud hynny drwy e-bost i'r cyfeiriad e-bost canlynol:

- Rheoli.Gwybodaeth@rctcbc.gov.uk

Wrth gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, rydyn ni'n argymell eich bod chi'n anfon copi o'r ohebiaeth at yr ysgol yn rhan o'i rôl fel rheolydd data.

Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu

Disgyblion

Fel arfer rydyn ni'n prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol sy'n ymwneud â phob disgybl:

- Gwybodaeth bersonol megis enw, dyddiad geni, rhif unigryw y disgybl ac ati;
- Manylion cyswllt megis cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost ac ati;
- Nodweddion fel ethnigrwydd, iaith, cenedligrwydd, man geni, cyfeiriadedd rhywiol, hawl/meini prawf i gael prydau ysgol am ddim, statws plentyn sy'n derbyn gofal;
- Gwybodaeth iechyd a meddygol berthnasol fel gwybodaeth meddyg, iechyd plant, iechyd deintyddol, alergeddau, iechyd golwg a chlyw, meddyginiaeth, gofynion dietegol ac ati;
- Gwybodaeth am bresenoldeb, megis y sesiynau a gafodd eu mynychu, nifer yr absenoldebau, y rhesymau dros yr absenoldebau, ysgolion blaenorol y disgybl ac ati;
- Gwybodaeth asesu a chyrhaeddiad;
- Gwybodaeth yn ymwneud â chludiant ysgol / trefniadau casglu;
- Delweddau (TCC).

Mae modd i ni brosesu'r categorïau canlynol o ddata personol yn dibynnu ar anghenion disgyblion ac amgylchiadau unigol:

- Gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anabledd
- Gwybodaeth diogelu megis - gorchmynion llys, cyfranogiad proffesiynol;
- Gwybodaeth yn ymwneud ag ymddygiad a gwaharddiadau;
- Gwybodaeth yn ymwneud â damweiniau a digwyddiadau;
- Gwybodaeth yn ymwneud â chwynion yn ymwneud â'r ysgol.

Rhieni a Chysylltiadau Mewn Argyfwng

Fel arfer rydyn ni'n prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol sy'n ymwneud â phob rhiant a chyswllt brys:

- Dynodyddion personol a manylion cyswllt megis enw, cyfeiriad, rhif ffôn, gweithle (os yw'n berthnasol), cyfeiriad e-bost, ac ati;
- Perthynas i'r plentyn.

Mae'n bosibl y byddwn ni'n prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol sy'n ymwneud â rhieni, yn dibynnu ar anghenion disgyblion ac amgylchiadau teuluol:

- Gwybodaeth sy'n ymwneud ag a yw rhiant yn aelod o'r lluoedd arfog;
- Hawl gyfreithiol i weld y plentyn ac unrhyw orchmynion llys sy'n nodi'r hawliau o ran hynny;
- Gwybodaeth berthnasol am y cartref/teulu megis brodyr a chwiorydd, trefniadau gofal plant ac ati;
- Gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â chysylltiad â gwasanaethau cymorth e.e. gwasanaethau cymdeithasol, diogelu, anghenion dysgu ychwanegol ac ati;
- Gwybodaeth ariannol e.e. sy'n ymwneud â thaliadau a wneir neu sy'n ddyledus i'r ysgol;
- Gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â chwynion sy'n ymwneud â'r ysgol;
- Delweddau TCC.

Pam rydyn ni'n prosesu data personol

Rydyn ni'n prosesu'r data personol i gyflawni ein swyddogaethau statudol fel ysgol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r gweithgareddau a'r swyddogaethau canlynol:

- derbyn disgyblion
- dysgu disgyblion
- cofnodi, monitro a mynd i'r afael â chynnydd, cyrhaeddiad, cyflawniad disgyblion ac ati ac adrodd arnyn nhw
- cofnodi, monitro a mynd i'r afael ag ymddygiad a gwaharddiadau disgyblion ac adrodd arnyn nhw
- cofnodi, monitro a mynd i'r afael â phresenoldeb disgyblion ac adrodd arno
- cyfeirio, adolygu, monitro a chefnogi darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- diogelu disgyblion
- darparu gofal bugeiliol priodol
- bodloni'r dyletswyddau statudol a osodir arnon ni ar gyfer casglu data
- arolygiadau statudol
- gweinyddiaeth gyffredinol a chyllid
- llywodraethu ysgolion
- trefnu a chynnal ymweliadau addysgol
- trefnu/cydgysylltu cludiant o'r cartref i'r ysgol
- trefnu/cydlynu darpariaeth prydau ysgol
- rheoli cwynion sy'n ymwneud â'r ysgol
- iechyd a diogelwch
- cofnodi ac adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau
- cofnodi gwybodaeth briodol mewn perthynas â hawliadau yswiriant
- dogfennu a chadw cofnod o achlysuron a gweithgareddau e.e. mabolgampau, seremonïau gwobrwyo
- ymgysylltu â rhieni a chadw mewn cysylltiad â darpariaeth addysg a chynnydd y disgybl
- cysylltu â rhieni mewn argyfwng
- adolygu ac asesu ansawdd ein darpariaeth addysg
- cynllunio adnoddau.

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data personol

Yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol i ymgymryd â'n swyddogaeth statudol fel ysgol yw:

- **Rhwymedigaeth Gyfreithiol** (c) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer rwymedigaeth gyfreithiol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.
- **Tasg Gyhoeddus –** Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.
- **Budd sylweddol i'r cyhoedd** - Erthygl 9 (2) (g) - prosesu sy'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undebol neu aelod-wladwriaeth sy'n gyfraneddol i'r nod, yn parchu hanfod hawliau diogelu data ac yn darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion y person y mae'r data amdano.

Mewn amgylchiadau cyfyngedig (er enghraifft wrth recordio cyngherddau ysgol) byddwn ni'n dibynnu ar:

- **Caniatâd** – Erthygl 6(a) - mae gwrthrych y data wedi cydsynio i brosesu ei ddata/data personol at un neu ragor o ddibenion penodol.

Lle bo caniatâd yn sail gyfreithlon ar gyfer prosesu bydd yn cael ei geisio gan ddisgyblion neu rieni (yn dibynnu ar oedran y disgybl) cyn i'r data personol gael ei gasglu. Mae gan unigolion yr hawl i dynnu'r caniatâd yma'n ôl ar unrhyw adeg (gweler yr adran *'Eich hawliau diogelu data'* isod am ragor o wybodaeth).

O dan amgylchiadau llai cyffredin (er enghraifft mewn sefyllfa o argyfwng meddygol) efallai byddwn ni'n dibynnu ar:

- **Buddiannau Hanfodol** – Erthygl 6(d) ac Erthygl 9(c) - mae angen prosesu er mwyn diogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu berson naturiol arall lle mae gwrthrych y data yn analluog yn gorfforol neu'n gyfreithiol i gydsynio.

Gan bwy neu o ble rydyn ni'n casglu data personol?

Mae'n bosibl y byddwn ni'n derbyn y data personol gan unigolion neu sefydliadau yn y categorïau canlynol:

- Disgyblion
- Rhieni
- Manylion Cyswllt mewn Argyfwng
- Staff ysgol – pennaeth, athrawon, cynorthwy-ydd dysgu, staff cymorth ac ati
- Corff Llywodraethu, Llywodraethwyr Ysgolion Unigol, Paneli Annibynnol
- Gwasanaethau cymorth Awdurdodau Lleol megis y Garfan Derbyn Disgyblion, Gwasanaethau Arlwyo, Gwasanaethau Trafnidiaeth, Carfan Ddata'r Awdurdod Addysg Lleol, Gwasanaethau Mynychu'r Ysgol a Lles, Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad ac ati.
- Gwasanaethau cymorth busnes Awdurdodau Lleol megis Cymorth i Lywodraethwyr, yr Adran Yswiriant, Gwasanaethau Cyfreithiol ac ati.
- Sefydliadau diogelu, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol a all fod yn ymwneud ag asesu, rhoi cymorth neu ddarparu gwasanaethau i ddisgybl a'i deulu (e.e. Gwasanaethau i Blant Awdurdodau Lleol, Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg, Byrddau Iechyd, gweithwyr iechyd proffesiynol ac ati).
- Sefydliadau sector preifat ac elusennau a all fod yn ymwneud â chefnogi neu ddarparu gwasanaethau i ddisgybl a'i deulu (e.e. CAMHS).
- Aelodau o'r cyhoedd ac ymwelwyr â'r ysgol.

Gyda phwy rydyn ni'n rhannu data personol

Rydyn ni'n rhannu data personol gyda'r sefydliadau allweddol canlynol i gyflawni ein swyddogaeth statudol fel ysgol. Cyfeiriwch at yr hysbysiadau preifatrwydd manylach ar gyfer prosesau penodol. Mae'r rhain i'w gweld yma.

Dylid nodi nad yw'r holl ddata personol sydd wedi'i amlinellu uchod (*y categorïau data personol rydyn ni yn eu prosesu*) yn cael ei rannu â phob sefydliad. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r diben yn unig.

Pwy	Pam
Llywodraeth Cymru	Adroddiadau cenedlaethol, asesu ac ati.
Consortiwm Canolbarth y De (trwy Lywodraeth Cymru)	Adrodd, asesu, gwella ysgolion ac ati.
ESTYN	Dibenion arolygu
Corff Llywodraethu / Llywodraethwyr Ysgol / Paneli Annibynnol	Swyddogaethau'r Corff Llywodraethu a'r Panel Annibynnol
Yr Awdurdod Lleol – Gwasanaethau Cymorth	Mae'r ysgol yn gweithio ochr yn ochr ac ar y cyd â nifer o wasanaethau cymorth yr Awdurdod Lleol i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Ymhlith y rhain, mae: • Y Garfan Derbyn - rheoli'r broses derbyn i ysgolion, trosglwyddiadau ac ati • Y Gwasanaeth Cludiant – darpariaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol • Y Gwasanaeth Arlwyo – darpariaeth arlwyo yn yr ysgol • Y Garfan Data – adroddiadau statudol, rheolaeth ariannol • Y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles - cofnodi, monitro a mynd i'r afael â phresenoldeb disgyblion • Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant - atgyfeiriadau, asesiadau o angen, gweithredu ac adolygu cymorth parhaus • Gwasanaethau Cymdeithasol - atgyfeiriadau, asesiadau o angen, gweithredu ac adolygu cymorth parhaus • Y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth - atgyfeiriadau, asesiadau o angen, gweithredu ac adolygu cymorth parhaus
Hwb Diogelu	MASH yw'r pwynt cyswllt ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol, i roi

Amlasiantaeth Cwm Taf Morgannwg (MASH)	gwybod am unrhyw bryderon am ddiogelwch ar draws Cwm Taf Morgannwg. Mae MASH yn cynnwys staff o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, yr Heddlu, Iechyd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol. • Diogelu
Gwasanaethau Materion Busnes yr Awdurdod Lleol	Mae nifer o wasanaethau'r awdurdod lleol yn cefnogi gwaith yr ysgol. Ymhlith y rhain mae: • Cymorth i Lywodraethwyr - cymorth, cyngor ac arweiniad i'r corff llywodraethu ac ati. • Adnoddau dynol – gwasanaethau gweithwyr. • Y Garfan Yswiriant – trin/rheoli hawliadau, cyngor, cymorth, arweiniad ac ati. • Gwasanaethau Cyfreithiol – cyngor cyfreithiol, cymorth ac ati. • Rheoli Gwybodaeth – cyngor, cymorth ac ati.
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	Rhoi gwybod am ddamweiniau/digwyddiadau yn unol â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.
Byrddau Arholi	• Hwyluso sefyll arholiadau • Cefnogi'r broses apêl ar gyfer arholiadau
Prifysgolion	• Cefnogi disgyblion yn y broses ymgeisio. • Darparu tystlythyrau/geirda
Darparwyr Rhaglenni Cyfoethogi	• Cefnogi disgyblion sydd wedi cofrestru ar y rhaglen/cynllun.
Cyllid Myfyrwyr Cymru	• Cefnogi'r cais am gyllid myfyrwyr

Proseswyr data

Mae proseswr data yn gwmni neu sefydliad sy'n prosesu data personol ar ran rheolwr. Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o broseswyr data sy'n darparu gwasanaethau i ni. Dyma'r categorïau o brosesyddion data rydyn ni'n eu defnyddio:

- Darparwyr Systemau TG
- Cyflenwyr systemau trosglwyddo data diogel TG
- Cyflenwyr systemau cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol
- Cyflenwr system asesu risg (yn ymwneud ag ymweliadau addysgol).

Mae ein proseswyr data yn gweithredu ar ein cyfarwyddyd ni yn unig. Does dim modd iddyn nhw wneud unrhyw beth gyda'ch data personol oni bai ein bod ni wedi eu cyfarwyddo i wneud hynny. Fyddan nhw ddim yn rhannu eich gwybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad ar wahân i ni nac yn ei defnyddio at eu dibenion eu hunain. Byddan nhw'n ei dal yn ddiogel ac yn ei chadw am y cyfnod rydyn ni wedi'u cyfarwyddo i wneud hynny. Os oes gyda chi ymholiad penodol yn ymwneud â'n proseswyr data, cysylltwch â'r Arweinydd Diogelu Data.

Am ba mor hir byddwn ni'n cadw'r data personol?

Er mwyn dilyn egwyddor storio data Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, mae'r cofnodion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dim ond data personol sy'n berthnasol i'r cofnod sy'n cael ei gadw am y cyfnod cadw cyfan (e.e. dogfennau sy'n cynnwys asesiadau, penderfyniadau, deilliannau ac ati). Caiff unrhyw wybodaeth sy'n amherthnasol yn y tymor hir neu sy'n amherthnasol yn dystiolaethol ei dinistrio yn rhan o arferion busnes arferol.

Mae cofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r canllawiau a nodir yn yr Atodlen Cadw a gynhwysir ym Mhecyn Cymorth i Ysgolion y Gymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion. Ar ôl i'r cyfnod cadw ddod i ben, mae gwybodaeth yn cael ei dinistrio'n ddiogel ac yn barhaol.

Am ragor o wybodaeth am fathau penodol o gofnodion, cyfeiriwch at ein hysbysiadau preifatrwydd manylach sydd i'w gweld yma.

Eich hawliau diogelu data

O dan gyfraith diogelu data, mae hawliau gyda chi y mae angen i ni eich gwneud chi'n effro iddyn nhw. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich data personol.

Eich hawl i weld eich data personol

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. Mae'r hawl yma'n berthnasol ar bob adeg. Mae rhai eithriadau, sy'n golygu efallai na fyddwch chi'n derbyn yr holl ddata rydyn ni'n ei brosesu bob amser. Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Eich hawl i'ch data gael ei gywiro

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni gywiro data personol sy'n anghywir yn eich barn chi. Hefyd, mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni gwblhau data sy'n anghyflawn yn eich barn chi. Mae'r hawl yma'n berthnasol ar bob adeg. Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Eich hawl i gael eich data wedi'i ddileu

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni ddileu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Eich hawl i gyfyngu ar sut mae sefydliadau'n defnyddio'ch data

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth..

Eich hawl i wrthwynebu'r defnydd o'ch data

Mae'r hawl gyda chi i wrthwynebu i ni brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Eich hawl i drosglwyddo data

Mae hyn ond yn berthnasol i ddata personol rydych chi wedi ei roi i ni. Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni drosglwyddo'r data personol rydych chi wedi'i roi i ni o un sefydliad i'r llall neu ei roi i chi. Mae'r hawl yma ond yn berthnasol os ydyn ni'n prosesu'r data personol yn seiliedig ar eich caniatâd neu o dan ymrwymiad i gontract, neu wrth drafod derbyn contract, a bod y prosesu'n awtomataidd. Darllenwch ragor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Does dim rhaid i chi dalu am arfer eich hawliau. Mae mis gyda ni i ymateb i'ch cais o'r dyddiad y caiff eich cais ei ddilysu. Mae modd i ni ymestyn y cyfnod yma am ddau fis arall os yw'r cais yn gymhleth neu os byddwn ni'n derbyn nifer o geisiadau gennych chi.

Cysylltwch ag Arweinydd Diogelu Data'r ysgol os ydych chi'n dymuno gwneud cais.

Eich hawl i wneud cwyn i'r ysgol ynghylch diogelu data

Mae'r hawl gyda chi i gwyno i'r ysgol os ydych chi o'r farn nad ydyn ni wedi trin eich data personol yn gyfrifol ac yn unol ag arfer da.

Os oes gennych chi bryder, rydyn ni'n eich annog i gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data yn y lle cyntaf. Mae modd datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gymharol gyflym trwy ffonio neu e-bostio'r ysgol. Os hoffech chi wneud cwyn ffurfiol mae modd i chi wneud hynny drwy ein polisi cwynion.

Eich hawl i wneud cwyn i'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch diogelu data

Mae modd i chi hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych chi'n anfodlon â sut rydyn ni wedi defnyddio'ch data, ond rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â ni yn y lle cyntaf.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

- Cyfeiriad: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
- Rhif y Llinell Gymorth: 0303 123 1113
- Gwefan: http://www.ico.org.uk

Rheoli'r fersiwn

Fersiwn	Dilys o	Dilys hyd at	Sylwadau
1	Medi 2022	Medi 2024	DD/B